Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynsaron
# Saron
# Llandysul
# Sir Gaerfyrddin
# SA44 5ET

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
## a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd, gymunedol yw Ysgol Brynsaron. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys pentrefi Saron, Rhos, Pentrecwrt, Bancyffordd a'r ardal wledig o'i chwmpas. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu penblwydd yn bedair oed. Mae 107 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys tri phlentyn meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn pum dosbarth. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae gan oddeutu 11% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n llawer is na chyfartaledd Cymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 21.3% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Gwyn Prydeinig yw ethnigrwydd y disgyblion. Mae tua 30% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn eu cartrefi.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2008. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Mehefin 2000.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynsaron yn 2013-2014 yw £3,092 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Brynsaron yn safle 104 o'r 106 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn meddu ar agwedd bositif at ddysgu;
- profiadau dysgu cyffrous o ansawdd uchel, a staff yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol;
- addysgu'n gadarn dda ar draws yr ysgol;
- yr ysgol yn hybu ethos cynhwysol yn llwyddiannus sy'n seiliedig ar barch a gofal; ac
- amgylchedd dysgu hapus a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth arweinyddiaeth feddylgar ac effeithiol lle'r mae'r staff yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus;
- ymdeimlad cryf o waith tîm yn yr ysgol;
- y corff llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithredu'n briodol fel cyfeillion beirniadol;
- gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac yn eglur;
- gwybodaeth dda gan yr ysgol am ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella; ac
- amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwelliant yn y niferoedd sy'n cyflawni ar y deilliannau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac yn fwy creadigol yn y Gymraeg

A3 Rhannu arferion gorau addysgu ar draws yr ysgol a thu hwnt i'r ardal leol

A4 Cysoni a chryfhau'r gyfundrefn asesu ac asesu ar gyfer dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gynradd Brynsaron yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Ar y cyfan, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi. Mae bron pob un yn cydweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau, gan gyfrannu'n briodol i drafodaethau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus.

Ar ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion islaw'r disgwyl ymhob deilliant.

Mae safonau siarad a gwrando da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r rhai ieuengaf yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n fanwl ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn siarad yn glir ac yn hyderus ag oedolion a phlant eraill. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent hefyd yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu syniadau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn medru darllen eu llyfrau darllen a'u gwaith eu hunain i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae'r disgyblion yn datblygu strategaethau addas i'w helpu i ddarllen er pleser a dealltwriaeth. Enghraiift o hyn yw disgyblion yn recordio eu hunain yn darllen llyfr ar dabled. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn. Maent yn darllen yn hyderus, yn rhugl, a chyda dealltwriaeth dda. Maent hefyd yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil. Mae'r ffocws ar godi safonau darllen ymhellach yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'n gyffredinol yn y ddwy iaith.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn llunio darnau da o ysgrifennu sy'n dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o batrymau sillafu ac atalnodi sylfaenol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth o ffurfiau, gyda llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu at bwrpasau ac mewn arddulliau gwahanol ar draws agweddau'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn arbennig o dda. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu yn datblygu'n llawn ac nid ydynt chwaith yn cael digon o gyfle i ysgrifennu'n greadigol ac yn ymestynnol yn y Gymraeg.

Mae'r ystod o raglenni cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn effeithiol o ran gwella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion wedi'u targedu. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a marched ac mae disgyblion ag anghenion

dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ar y lefel uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso mewn meysydd eraill o ddysgu yn hyderus, gan ddatrys problemau rhif ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Mae dealltwriaeth gadarn gan lawer ohonynt o gysyniadau pedair rheol rhif ac maent yn gallu trosglwyddo eu medrau rhifedd yn hyderus i feysydd pwnc eraill. Enghraifft dda yw'r astudiaeth manwl a wnaethant o Kenya a chymharu tymheredd dau gyfnod cyferbyniol wrth astudio cynhesu byd eang.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safonau disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) yn gyffredinol is na chyfartaledd ysgolion y teulu. O gymharu ag ysgolion eraill tebyg o safbwynt y nifer â hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn gyffredinol yn y 50% is. Fodd bynnag, mewn llythrennedd, mae yn y 50% uwch. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae safonau disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer pob maes dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau disgyblion ar lefel 4 yn dangos gwelliant cynyddol dros amser o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau diweddar yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd a'r 50% is mewn Cymraeg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, fodd bynnag, mae safonau disgyblion yn amrywio o'r 25% isaf mewn Saesneg i'r 50% uwch yn y Gymraeg, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar amseroedd eraill yn ystod y dydd. Maent yn cyfranogi'n gydwybodol ac yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu. Maent hefyd yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Dros amser, mae canran presenoldeb disgyblion wedi gwella ac mae'r ysgol bellach yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfrifoldebau mae staff yn darparu iddynt, megis gofalu am y plant bach yn ystod amser chwarae fel 'cyfaill cwl'. Maent yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac maent yn manteisio ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio agos, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r cynllunio hefyd yn diwallu anghenion personol ac addysgol disgyblion ac yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da. Mae cynllunio athrawon wedi cael ei addasu yn briodol er mwyn cynnwys medrau llythrennedd a rhifedd. Mae yna gyfeiriadau clir at ddatblygiad a dilyniant o'r medrau hyn ar gyfer pob blwyddyn. Maent hefyd wedi'u gwahaniaethu ar gyfer y disgyblion yn y dosbarth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae profiadau dysgu'r holl ddisgyblion yn cael eu cyfoethogi gan ymweliadau i'r gymuned leol a thu hwnt. Mae themâu traws-gwricwlaidd yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion wneud defnydd ymarferol o'u medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws nifer o feysydd cwricwlaidd. Enghreifftiau da o hyn yw cywaith am Kenya ac astudiaeth diwylliant Tseina.

Rhoddir sylw priodol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion. Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant priodol i rieni mewn strategaethau addysgu darllen a rhifedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol ac yn treiddio i nifer o feysydd y cwricwlwm. Mae ailgylchu, arbed ynni a chynaliadwyedd yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu mewn ffordd fedrus ac yn cyflwyno gwersi bywiog a brwdfrydig er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion. Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol. Mae'r athrawon a chynorthwywyr yn modelu patrymau iaith cywir ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion.

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol a defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau, yn holi'n herol ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol.

Mae trefniadau pwrpasol yn eu lle ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu gwersi. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y disgyblion llai hyderus. Mae'r disgyblion yn elwa o'r ffaith fod eu hathrawon yn trafod ansawdd eu gwaith mewn modd adeiladol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei

farcio yn rheolaidd a rhoddir adborth adeiladol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn cael eu herio i wella eu gwaith eu hunain ar ôl derbyn sylwadau gan yr athrawon.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn cynnig profiadau i'r disgyblion sydd yn eu galluogi i ddatblygu hunan hyder a gofal at eraill tra'n magu ystod eang o fedrau.

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, ac yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned. Gwelir amryw enghreifftiau o ddisgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys prosbectws yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eang a chynhwysfawr. Mae anghenion y disgyblion hyn yn cael eu canfod yn gynnar gan yr athrawon ac maent yn darparu cynlluniau gwaith unigol o safon uchel ar eu cyfer. Mae'r cymhorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at brofiadau dysgu a lles cyffredinol y disgyblion. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae gweithdrefnau ar gyfer y disgyblion sy'n fwy abl a thalentog ac nid yw rhain eto wedi cael effaith ddigonol ar eu deilliannau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, gofalgar, hapus a chynhwysol. Nodwedd gref yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a, thrwy hynny, magu agwedd o barch a hunan hyder. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau addas yn eu lle. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau megis plant mewn angen, Cancr ac Operation Christmas Child.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sydd wedi ei datblygu yn ddiweddar iawn, yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu. Ceir ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag

adnoddau cyfoethog ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lan a graenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweinyddiaeth feddylgar ac effeithiol y pennaeth, mae'r staff yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn ymroddi yn effeithiol i godi safonau'r disgyblion. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar dargedau gwella'r ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu mesuradwy. Mae gan bob aelod o staff rolau wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cydweithio'n dda fel tim effeithiol. Mae hon yn rinwedd gref o arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol a rheolaethol yn dda. Maent yn gefnogol ac yn cyfrannu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae adroddiadau o ansawdd da gan y pennaeth ac athrawon eraill yn sicrhau bod yr aelodau yn gwybod sut mae'r ysgol yn perfformio. Maent hefyd yn ymwybodol o'r agweddau cyffredinol a phenodol sydd angen eu blaenoriaethu i godi safonau ymhellach.

Mae trefniadau rheoli perfformiad strwythuredig yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar lefel ysgol, lleol a chenedlaethol. Enghreifftiau perthnasol o hyn yw'r fframwaith rhifedd a llythrennedd a'r ymgyrch i godi canrannau presenoldeb. Nodir cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas i'r holl staff ac mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at welliannau mewn safonau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac yn eglur. Mae hefyd yn ddadansoddol. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r barnau gan gynnwys data perfformiad, barn rhieni a disgyblion, monitro ac arsylwadau gwersi. Mae'r staff yn cyfrannu'n bwrpasol i'r broses a rhoddir ystyriaeth lawn i'w barnau. Yn ogystal, mae mewnbwn arweinydd system yr awdurdod wedi atgyfnerthu'r broses.

Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r hunanarfarnu i osod blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol ar gyfer gwella safonau a gweithdrefnau rheolaethol. Mae'r blaenoriaethau yn glir a phendant, ac yn rhwydd i arweinwyr a staff fonitro cynnydd yn eu herbyn yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau ac ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni yn dda ac mae bron pob un yn ymfalchïo ym mholisi ‘drws agored’ yr ysgol. Mae ymweliadau â’r gymuned ac ymwelwyr o’r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion, er engrhaifft ymweliad pentrefwr i siarad a’r disgyblion am ei brofiad o fod yn ifaciwi. Mae’r partneriaethau gyda busnesau lleol yn dda, gyda rhai ohonynt yn derbyn disgyblion ar ymweliadau, er enghraifft i’r archfarchnad gyfagos. Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol.

Mae cysylltiadau gweithredol yr ysgol a’r cylch meithrin lleol yn paratoi plant y feithrinfa yn dda ar gyfer dechrau eu haddysg ffurfiol. Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol dda gydag ysgolion y clwstwr. Mae’r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at gyfoethogi’r ddarpariaeth, sicrhau ansawdd a gwella deilliannau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaeth briodol gyda’r ddwy ysgol uwchradd y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt ac mae’r trefniadau hyn yn effeithiol iawn ar gyfer paratoi'r disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol pendant wedi’u cysylltu’n glir â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion cyfredol. Mae’r tim cyllid yn cynllunio ei ddefnydd o adnoddau’n ofalus. Mae’r ysgol yn addasu penderfyniadau gwario yn sgil newidiadau yn niferoedd y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn flynyddol.

Mae lefel briodol o staff wedi eu hyfforddi yn gymwys i gyflwyno’r cwricwlwm ac mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan bwysig ac effeithiol o’r tîm ac yn cael dylanwad positif ar y dysgu ac addysgu. Gwna’r ysgol y defnydd gorau posibl o’r adnoddau i atgyfnerthu profiadau dysgu’r disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae’r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn briodol ond nid yw’r staff ategol yn rhan o’r broses ar hyn o bryd. Mae’r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau llwyddiannus o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae’r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd ac yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5 ) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn uwch na chyfartaledd ysgolion eraill y teulu ac yn genedlaethol ond yn is mewn datblygiad mathemategol. Mae canlyniadau 2013 yn uwch na'r rhai yn 2012. Mewn datblygiad llythrennedd, iaith a chyfathrebu, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel a ddisgwylir wedi gwella, ac wedi symud yr ysgol o'r 25% isaf yn 2012 i'r 50% uwch yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Mae cyflawniad disgyblion mewn mathemateg wedi symud yr ysgol o’r 25% isaf i’r 50% is.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd deilliant 6 mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu. Mewn llythrennedd, iaith a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol ar y lefel uwch, mae cyflawniad y disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf yn 2012 a 2013, ac eithrio datblygiad mathemategol sydd yn y 50% is yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, mae canran y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 ) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Mewn Cymraeg, roedd yn is na chyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae’r ysgol wedi symud o'r 50% is i'r 25% uchaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Mae’r dangosydd pwnc craidd wedi bod yn y 25% uchaf am y tair blynedd diwethaf. Mewn Cymraeg, mae'r ysgol yn parhau i fod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio, rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (sef Lefel 5) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd ac eithrio Cymraeg, oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad disgyblion wedi amrywio tipyn. Mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae’r canran wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru am dair o’r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar lefel 4 wedi amrywio rhwng y 50% uwch a’r 50% is dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau’r ysgol mewn Cymraeg wedi gwella ac yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch yn 2013. Mae Saesneg yn 2013 yn gosod perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen, merched sy’n cyflawni'n well na’r bechgyn mewn iaith a datblygiad personol. Er bod amrywiadau yn y garfan dros amser, mae merched a bechgyn yn cyflawni yr un mor dda yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob maes ac eithrio’r Gymraeg, lle nad yw’r bechgyn yn cyflawni cystal. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 60 | 55<br>92%<br>92% | 5<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 60 | 57<br>95%<br>97% | 3<br>5%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 60 | 58<br>97%<br>96% | 2<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 60 | 60<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 60 | 60<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 60 | 59<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 60 | 55<br>92%<br>91% | 5<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 60 | 60<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 60 | 47<br>78%<br>77% | 13<br>22%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 60 | 53<br>88%<br>84% | 7<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 27 | 23 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 27 | 24 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 27 | 24 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 27 | 20 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 74% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 27 | 23 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 85% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 24 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 27 | 12 | 13 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 48% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 19 | 5 | 0 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 18 | 9 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 27 | 22 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 25 | 17 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 68% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 27 | 13<br>48% | 11<br>41% | 2<br>7% | 1<br>4% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 17<br>65% | 9<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 27 | 15<br>56% | 9<br>33% | 0<br>0% | 1<br>4% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 22<br>81% | 5<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 21 | 15<br>71% | 4<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 27 | 18<br>67% | 9<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 22<br>85% | 3<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Meinir Wynne Howells | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Diane Ebo | Arolygydd Cymheiriaid |
| Silyn Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.